

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd Mai 13ddeg 2015 am 7 - 0 o'r gloch.

Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 13th May 2015.

- 1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Clerc, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

Meeting was opened by the Clerk, by extending a warm welcome to everyone in attendance.

Presennol/Present - Cynghorwyr Ruth Roberts, Mary Ellis, Dafydd Roberts, Delyth Jones, Keith Williams, Alwyn Rowlands a Geraint Parry (Clerc).

- 2. Ymddiheuriadau/Apologies:-**

Cyng. L Davies, A Owen, G Moore, C Jones ac W Hughes.

- 3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8fed o Ebrill fel rhai cywir gan Cyng. K Williams, eiliwyd gan Cyng. M Ellis wrth newid dau bwynt.

Minutes of the previous meeting held on 8th April were accepted as accurate by Clr. K Williams, seconded by Clr M Ellis, by amending two points.

- 4. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- Grant i Gwella Amgylchedd - Clerc disgwyl cadarnhad gan y Cyngor Sir ynglŷn ar gais am arwydd fflachio cyflymder. Cyng. D Jones yn adrodd bod PCSO Mathew Jones wedi ysgrifennu at "Aros yn ddiogel" er mwyn cael gosod gwifren monitro traffig ar y ffordd ger mynedfa i faes chwarae plant. Cyng. K Williams yn awgrymu gosod croesfan sebra ar y ffordd er mwyn arafu traffig. Cyng. A Rowlands i drafod y mater ymhellach. *Clerk is waiting for confirmation from the County Council regarding our application for the flashing speed sign. Clr D Jones reports that PCSO Mathew Jones has written to "Stay Safe" in order to fit a traffic monitoring wire on the road by the entrance to the play area. Clr K Williams suggests installing a zebra crossing on the road in order to slow traffic. Clr A Rowlands to raise the matter further.*
- Tai Fforddiadwy - gwaith wedi dechrau ar y safle. Cyng. D Jones yn adrodd bod pryder oherwydd mae'r fynedfa yn agos i'r Ysgol a bod yr Ysgol yn defnyddio system traffic un ffordd. *Affordable Housing Scheme - work has started on the site. Clr D Jones reports that there is a concern the the entrance is close to the school and that the school traffic use a one way system.*
- Giât ar dop y steps ar y llwybr ger Eglwys Penmon - Cyng. A Owen wedi cytuno edrych ar y broblem. *Gate at the top of the steps near Penmon Church - Clr A Owen has agreed to look at the problem.*
- Clerc wedi cysylltu ar Swyddog Cymunedol ynglŷn ar oryrru trwy'r pentre'. Yn anffodus ni all datgelu unrhyw wybodaeth. *Clerk has contacted the Community Beat Officer regarding the speeding through the village. Unfortunately she cannot disclose any information.*
- Taith Beico gymunedol ar 10/05/15 yn llwyddiannus. *Community Bike ride event on the 10/5/15 was successful.*
- Tir Comin ger 1 Didfa - Clerc yn darllen llythyr a dderbyniwyd gan y perchennog presennol. Cyng. D Roberts yn egluro bod y perchennog blaenorol wedi derbyn caniatâd gan y Cyngor Cymuned i blannu coed ar y tir. Nodwyd bod gennym rwymedigaeth i allu glanhau'r ffos. Penderfynwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda'r perchennog. *Clerk read out the letter received by the present owner. Clr D Roberts explained that the previous owner had received permission to plant trees on the common land. It was noted that we have an obligation to be able to clean the ditch. It was decided that the Clerk to arrange a meeting with the home owner.*
- Wall Lleiniog - Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir gan ofyn iddynt wneud asesiad risg oherwydd mae'r cyflwr wal yn gwneud y ffordd yn beryglus iawn. Cyng. A Rowlands i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir. *Clerk has sent a letter to the County Council by asking them to make a risk assessment because the condition of the wall is making the road dangerous. Clr A Rowlands to raise the matter with the County Council.*
- Llwybr Coed yr Hendy - nifer o goed wedi dirywio ar y llwybr pren. Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir. *Hendy Footpath - number of planks have deteriorated on the path. Clerk has consulted with the County Council.*

- 5. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. D Roberts ar gais 35C103M/DEL. *Clr D Roberts on application 35C103M/DEL.*
- Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. *Clr M Ellis and D Jones on the discussion about the Community Group.*

6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

- 35C100H/VAR/ENF - Cais i ddiwygio nifer o amodau yng Nglanrafon Cottage, Llangoed - dim gwrthwynebiad. *Application to vary a number of condition in Glanrafon Cottage, Llangoed - no objection.*
- 35C103M/DEL cais o dan adran 73 i dynnu amod (annedd rheolwr yn unig) yn Parc y Wern – dim gwrthwynebiad. *Application under section 73 for the removal of condition (managers dwelling only) at Parc y Wern, Llangoed – no objection.*
- 35C321 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 12 Tros yr Afon, Llangoed – dim gwrthwynebiad. *Full application for the alteration and extensions at 12 Tros yr Afon, Llangoed – no objection.*
- 35C156B/VAR - cais o dan adran 73 i ddiwygio amod (1) er mwyn cael 5 mlynedd bellach i gychwyn gwaith yn 1 Cae Person, Llangoed - dim gwrthwynebiad. *Application under section 73 for the variation of condition(1) so as to allow a further 5 years to commence work at 1 Cae Person, Llangoed - no objection.*

Er gwybodaeth / Information

- 35C311A/MIN man newidiadau i gynllun gafodd ei ganiatau yn flaenorol o dan caniatad cynllunio 35C311 yn / *minor amendments to scheme previously approved under planning permission 35C311 at Gorwel, Llangoed – wedi ei caniatáu / granted.*
- 35C165A cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / *Full application for alterations and extensions at Pentir, Caim Penmon - wedi ei caniatáu / granted.*

7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol/Report by the County Councillor

- 7.10 Wedi bod yn brysur iawn gyda'r etholiad, trafodaethau tal, gwerthuso swyddi o gyflog cyfartal. *Have been very busy with the general election, pay negotiations, job evaluation and equal pay.*
- 7.11 Prif Weithredwr yn ymddeol ar ddiwedd mis Mai. *Chief Executive is retiring at the end of May.*
- 7.12 Grŵp Pobl Seiriol, cyfarfod nesaf 24/06/15 am 5.30 Canolfan Biwmares. Cyng. D Jones yn adrodd fod rhai o'r grwpiau ddim wedi cyfarfod, hefyd *Seiriol Group, next meeting 24/06/15 for 5.30 Canolfan Beaumaris. Cllr D Jones reports that some of the groups have not met.*
- 7.13 Gerddi Haulfre – dim gwybodaeth bellach. Cyng. K Williams yn bryderus o gylch y sefyllfa bresennol. *Haulfre Gardens – no further information. Cllr K Williams concerned about the present situation.*
- 7.14 Diweddarwyd ar y sefyllfa bresennol gyda gwaith lleol gan Dwr Cymru. *Update of the current situation with the work carried out locally by Welsh Water.*

8. Neuadd y Pentre' / Village Hall

Gynhaliwyd y cyfarfod blynyddol Pwyllgor y Neuadd ar 12/05/15. Dim newyddion pellach. *The Village Hall Committee AGM was held on the 12/05/15. No further information.*

9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group

Cwmni A-Z wedi peintio'r offerion chwarae yn faes chwarae plant. Clerc i anfon llythyr o ddiolch. *A-Z company have painted the play equipment in the park. Clerk to send a letter of thanks.*

Llwybr ffitrwydd wedi ei osod, ond heb ei orffen. Swing basced wedi ei godi. *Trim Trail has now been erected but unfinished. Basket Swing has been erected.*

Cais Rhyddhad Comic o £1,000 am dablenni yn llwyddiannus. Digwyddiadau gweithgareddau cynnal mis Awst. *Comic Relief application of £1,000 for tables is successful. Activity events to take place in August.*

Am wneud cais am Grant Natural Buzz i osod maes storiwr. *Applying for the Natural Buzz grant to erect a story teller area.*

Hefyd gwneud cais am grant anabl am offer synhwyrdd i'r parc. *Applying for a disabled grant for sensory equipment for the park.*

10. Gwybodaeth ar Cynghorau / Information on Councils

Clerc wedi derbyn canllawiau statudol gan Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan adran 55 o lywodraeth leol 2013 a ddaeth i rym ar ôl 1/05/2015, bod rhaid i'r Cyngor Cymuned cyhoeddi gwybodaeth electronig ar bob un o'r aelodau, cysylltiadau, cyfrifon blynyddol ac ati. *Clerk has received statutory guidance issued under section 55 of the local Government act 2013 which came into effect after 1/05/15, in that the Community Council must publish electronic information about each of its members, contacts, annual audited accounts etc.*

11. Grant Elusenol – ffens y Neuadd/Charitable Grant- Village Hall fence

Clerc ond wedi derbyn un dyfynbris erbyn y diwrnod cau o 8/05/15. Y dyfyniad pris a gafwyd oedd £18k ac uchafswm grant oedd ar gael oedd £8k. Oherwydd y gwahaniaeth, penderfynwyd peidio bwrw ymlaen gyda'r cais. Awgrymwyd y dylem ystyried "Heritage Grants" yn y dyfodol. *Clerk only received one quote by the deadline of 8/05/15. Quoted price was £18k with a maximum grant available of £8k, because of the large differential it was decided not to proceed with the application. It was suggested that we should consider "Heritage Grants" in future.*

12. Fynwent y Plwyf/Parish Cemetary

Trafodwyd taliadau'r fynwent drwy gymharu costau eraill. Cytunwyd i godi tal o 10% o 1/06/15. Trafodwyd hefyd y cais gan drigolyn lleol faint yw'r ffi i godi carreg bedd ar gyfer plentyn. Nid oes gan y Cyngor Cymuned ffi ar hyn o bryd. Penderfynwyd codi'r ffi arferol. *Discussed the cemetary charges by comparing other Church charges. It was agreed to raise the fee by 10% from 1/06/15. Also received a request from a local resident, the fee for erecting a headstone for a child. The Community Council presently does not have a fee. It was decided to charge the normal fee.*

13. Cyfrifon/Accounts

Incwm / Income:-

- Presapt cyntaf / 1st precept - £3,206
- Awdit 2014/15 - ffurflen archwilio flynyddol wedi cwblhau a'i gymeradwyo. Hysbysiad penodi ar gyfer hawliau etholwyr wedi ei osod yn yr hysbysfwrdd gyda diwrnod cau o 3/06/15. *Audit 2014/15 has been completed and approved. Notice of appointment of date for the exercise of elector rights has been placed in the notice board with an end date of 3/06/15.*

14. Gohebiaeth/Correspondence

Llythyr/Letter – Cyngor Tref Biwmares, cyfarfod blynyddol. *Beaumaris Town Council, annual meeting.*

Llythyr/Letter – cais gan Eglwys Oasis. Application by Oasis Church.

E-bost/e-mail – Glendale torri coed ger llinellau pŵer / *cutting trees by power lines*

E-bost/e-mail - cyfarfod Grŵp Seiriol / *Seiriol Group meeting*

15. UFA/AOB:

15.1 Wedi derbyn cais gan gwmni Glendale wrth ofyn am ganiatâd i dorri/lleihau a thocio coed i ennill pellter diogelwch o 4.5 metr oddi wrth y llinellau pŵer mewn 3 ardal ar dir comin ger Fferm Marian. Penderfynwyd yn unfrydol i caniatâu / *Received a request from Glendale to cut/reduce and prune trees in 3 areas to gain a safety distance of 4.5 MTRS from the power lines on common land by Marian Farm. Decision granted unanimously.*

15.2 Cyng. A Roberts wedi datgan ei bod yn ymddeol fel Cynghorydd. Diolchwyd am ei waith caled ac ymrwymiad dros y blynyddoedd. / *Clr A Roberts stated that she was retiring as a Councillor. She was thanked for her hard work and commitment over the years.*

15.3 Clerc wedi gosod hysbys ynglŷn ar swydd wag gyda diwrnod cau 5/06/15. *Clerk has placed an advert regarding the empty post with a closing date 5/06/15.*

15.4 Wedi cael cais gan Eglwys Oasis i osod pabell fawr ar gael defnydd o'r ystafell newid 23/07 - 25/07. Clerc i gysylltu ar Clwb Peldroed. *Received a request from the Oasis Church to erect a marquee and have the use of the changing room on 23/07 - 25/07. Clerk to consult with the Football Club.*

15.5 Wedi derbyn cais gan Clwb Peldroed i ddilyn grant i adnewyddu'r ystafell newid. Dim gwrthwynebiad. *Received a request from the Football Club to renovate the changing room. No objection.*

15.6 Sgwâr Tawelfan - clawdd Tŷ Newydd wedi tyfu'n fawr. Gwaith chwynnu wedi digwydd. Plannu planhigion lluosflwydd i ddigwydd 26/05/15. *Tawelfan Square - Ty Newydd hedge is now overgrown. Weeding has taken place. Planting of perennials to take place on the 26/05/15.*

15.7 O'r 1/04/15 mae'r Cyngor Sir nawr yn codi tal o £25 ar drigolion sydd wedi colli neu wedi difrodi ei biniau. *From the 1/04/15 the County Council is now charging residents £25 to replace their bins should they be lost or damaged.*

15.8 Arwyddion Baw Cwn wedi cyrraedd . *Dog Fouling signs have been received.*

16. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Clerc i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.30 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 3/06/2015 oherwydd bod y Clerc gydag ymrwymiad gwaith ar y dyddiad arferol.

*There was no further business to discuss. The Clerk thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9.30pm
Next meeting 3/06/15 because the Clerk has work commitments on the usual date.*

Llofnod y Cadeirydd/*Signature*

Dyddiad/*Date*